

Llythrennwr/Gwneuthurwr Arwyddion

Cyflwyniad

Mae llythrenwyr arwyddion yn paentio arwyddion drwy ddefnyddio enamel a brwsys llythrennu arbennig.

Mae gwneuthurwyr arwyddion yn cynhyrchu arwyddion gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau fel plastig, metel, pren a gwydr.

Gweithgareddau Gwaith

Fel Gwneuthurwr Arwyddion, byddwch yn paentio neu'n creu arwyddion sydd i'w gweld y tu mewn neu'r tu allan i siopau, tafarndai, gwestai, bwytai, gorsafoedd petrol, gorsafoedd trên, meysydd awyr a busnesau, ac ar gerbydau a chychod.



Mae Gwneuthurwyr Arwyddion yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Creu llythrennau tri dimensiwn gan ddefnyddio metel, pren, plastig neu wydr.
- Printio sgrin (gan wthio inc drwy rannau o sgrin rhwyll mân er mwyn creu patrwm ar y papur neu'r bwrdd islaw).
- Plygu gwydr i greu arwyddion wedi'u goleuo.

I ddechrau, mae Gwneuthurwyr Arwyddion yn darganfod pa fath o arwydd sydd ei angen ar y cleient. Byddwch yn cynllunio'r gwaith o flaen llaw. Mae'n bwysig iawn eich bod yn gywir wrth fesur maint y llythrennau a'r arwydd terfynol. Byddwch hefyd yn sicrhau bod yr arwyddion yn cyd-fynd â'r ardal o'u cwmpas.

Weithiau byddwch yn cynllunio'r arwydd eich hunain. Dro arall, byddwch yn dilyn cynllun neu friff y cleient. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod yr arwyddion terfynol hefyd.

Mae Gwneuthurwyr Arwyddion yn defnyddio dylunio trwy gymorth cyfrifiadur (CAD) a thechnoleg ddigidol yn eu gwaith.

Pan fyddwch wedi gorffen y cynllun, bydd Llythrenwyr a Gwneuthurwyr Arwyddion yn aml yn tynnu ffotograff o'u gwaith er mwyn cadw cofnod ohono, fel y gellir ei ddefnyddio o bosibl fel sail ar gyfer gwaith arall.

Bydd angen i Wneuthurwyr Arwyddion fod yn ymwybodol hefyd o faterion fel hawlfraint, lle gellir gosod arwyddion a lle nad oes modd gwneud hyn oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, a gwahaniaethu ar sail anableded.

Gallai darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg fod o fantais wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel Gwneuthurwr Arwyddion, bydd angen i chi fod:

- Yn gallu arlunio'n dda.
- Yn meddu ar sgiliau creadigol (os byddwch yn gyfrifol am ddylunio arwyddion).
- Yn gallu mesur a chyfrifo maint llythrennau'n gywir.
- Yn gallu sillafu'n gywir a sicrhau bod geiriau'n cael eu defnyddio yn y ffordd gywir.
- Yn heini a chryf (er mwyn cario ysgolion ac offer, a gosod arwyddion mawr).
- Yn gallu delio ag uchder (efallai y bydd rhaid dringo ysgolion i osod arwyddion).
- Yn mwynhau gweithio yn yr awyr agored ymhob math o dywydd.
- Yn meddu ar sgiliau TG.

Efallai y bydd angen sgiliau busnes a marchnata er mwyn hyrwyddo eich gwaith i gleientiaid. Byddai trwydded yrru'n ddefnyddiol o bosibl.

Efallai y bydd rhaid profi eich golwg lliw.

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog

Mae'r cyfraddau cyflog sy'n cael eu rhoi isod yn rhai bras.

- Gall Gwneuthurwyr Arwyddion dibrofiad ennill £16,000
- Gall Gwneuthurwyr Arwyddion profiadol ennill £20,000
- Gall Gwneuthurwyr Arwyddion uwch ennill £28,000

Oriau gwaith

Fel arfer, mae Gwneuthurwyr Arwyddion yn gweithio wythnos 39 awr, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, efallai y bydd rhaid gweithio'n hwyr ac ar benwythnosau weithiau, yn enwedig wrth wynebu terfynau amser.

Ble allen i weithio?

Cwmnïau cynhyrchu arwyddion yw'r cyflogwyr. Maen nhw'n amrywio o gwmnïau mawr sy'n cyflogi cannoedd o weithiwr i gwmnïau bach sy'n cyflogi hanner dwsin o weithwyr.

Daw cyfleoedd i Wneuthurwyr Arwyddion mewn ffatrioedd mewn trefi a dinasoedd ledled y DU.

Hunangyflogaeth

Daw cyfleoedd i Wneuthurwyr Arwyddion weithio'n hunangyflogedig. Maent yn cael gwaith gan amrywiaeth o gwmnïau, fel, er enghraifft, asiantaethau hysbysebu, stiwdios ac ymgynghorwyr dylunio, cwmnïau arddangosfeydd, ac amrywiol gynhyrchwyr a gwerthwyr.

Ble mae swyddi'n cael eu hysbysebu?

Caiff swyddi eu hysbysebu ar yr holl brif fyrddau swyddi, ar Universal Jobmatch, a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad

Mae Prentisiaeth Lefel Canolradd neu Brentisiaeth Lefel Uwch yn fan cychwyn da.

Gallwch hyfforddi i fod yn Llythrennwr neu'n Wneuthurwr Arwyddion drwy ddilyn cwrs coleg llawn amser neu gyfuniad o waith ac astudiaeth ran-amser.

Bydd rhai yn dechrau ar yr yrfa hon ar ôl cyrsiau addysg uwch. Mae pynciau fel dylunio graffeg neu gyfathrebu graffig/gweledol yn ddefnyddiol.

Hyfforddiant

Yn y gwaith y bydd yr hyfforddiant yn bennaf.

Mae Diplomâu NVQ mewn Gwneud Arwyddion ar gael ar lefel 2 a 3.

Os ydych chi'n gosod arwyddion, bydd angen cerdyn diogelwch y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) arnoch. Mae hyn yn golygu cael NVQ ac asesiad iechyd a diogelwch. Rhaid hefyd cael eich achredu er mwyn gweithio ar uchder.

Profiad gwaith

Mae sgiliau a enillwyd mewn maes perthnasol fel dylunio graffeg neu galigraffeg yn ddefnyddiol iawn ar gyfer dechrau yn yr yrfa hon.

Dilyniant

Bydd nifer o Wneuthurwyr Arwyddion yn mynd yn hunangyflogedig.

Gyda hyfforddiant a phrofiad, mae'n bosibl symud ymlaen i swydd rheolwr o fewn sefydliad.

Cymwysterau

Nid oes angen cymwysterau addysgol i ddod yn llythrennwr/gwneuthurwr arwyddion bob amser, ond mae TGAU mewn Celf, Dylunio a Thechnoleg, Mathemateg a Saesneg yn ddefnyddiol.

I gael lle ar Brentisiaeth Lefel Canolradd neu Uwch, fel arfer bydd arnoch angen pum TGAU ar radd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg a Mathemateg o bosibl.

Ar gyfer cyrsiau addysg uwch, fel arfer bydd arnoch angen 1 neu 2 Safon Uwch a TGAU mewn 4 neu 5 bwnc. Byddai pwnc fel Celf yn ddefnyddiol o ran Safon Uwch. O ran TGAU, mae nifer o gyrsiau yn gofyn am bynciau fel Saesneg, Mathemateg, Celf, a Dylunio a Thechnoleg.

Os nad oes gennych Safon Uwch, derbynnir y canlynol fel arfer:

- Diploma Cenedlaethol BTEC mewn Celfyddyd Gain neu gwrs perthynol.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (IBD).
- Prentisiaeth Lefel Uwch.

Caiff nifer o gymwysterau eraill eu derbyn hefyd felly edrychwch ar bob prospectws am fwy o fanylion.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gyfwerth ag un Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Terfynau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad bennu terfynau oedran ar gyfer mynediad i waith, addysg neu hyfforddiant, oni bai eu bod yn gallu dangos bod gwir angen am y terfynau hyn.

Sgiliau/profiad

Mae sgiliau a gasglwyd mewn maes perthnasol fel dylunio graffig neu galigraffeg yn ddefnyddiol.

Mae'n bwysig iawn hefyd fod gennych bortffolio da sy'n dangos amrywiaeth eich gwaith dylunio creadigol. Mae cael mynediad i'r gwaith hwn yn gystadleuol iawn fodd bynnag.

Cyrsiau

Bydd colegau fel arfer yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr heb y gofynion mynediad arferol, yn arbennig y rheini sydd â sgiliau mewn celfyddyd, crefft neu ddylunio. Dylid edrych ar bolisi derbyn y colegau unigol.

Mae nifer yn dechrau ar yrfa yn y maes hwn drwy gyfrwng Prentisiaethau Lefel Canolradd neu Brentisiaeth Lefel Uwch mewn Gwneud Arwyddion.

Ystadegau

- mae 68% o bobl mewn swyddi ym maes llythrennu/gwneud arwyddion yn hunangyflogedig.
- mae 6% yn gweithio'n rhan amser.
- mae gan 3% oriau hyblyg.
- mae 10% mewn gwaith dros dro.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Apprenticeships**
National Apprenticeship Service (NAS)
Ffôn 0800 015 0400
E-bost nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk
Gwefan www.apprenticeships.org.uk
- **Skills Development Scotland - Modern Apprenticeships**
Ffôn 0800 9178000
E-bost info@skillsdevelopmentscotland.co.uk
Gwefan www.myworldofwork.co.uk/modernapprenticeships

- **Creative Skillset**
Skills for the creative industries
E-bost info@creativeskillset.org
Gwefan www.creativeskillset.org
- **Creative Choices**
Publisher: Creative & Cultural Skills
E-bost info@creative-choices.co.uk
Gwefan www.creative-choices.co.uk
- **Creative & Cultural Skills**
Skills for craft, cultural heritage, design, literature, music, performing arts and visual arts
E-bost london@ccskills.org.uk
Gwefan ccskills.org.uk
- **British Sign and Graphics Association (BSGA)**
Cyfeiriad Northgate Business Centre, Northgate, Newark, Notts NG24 1EZ
Ffôn 0845 3383016
E-bost enquiries@bsga.co.uk
Gwefan www.bsga.co.uk
- **Careers Wales - Welsh Apprenticeships**
Ffôn 0800 028 4844
Gwefan ams.careerswales.com/

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Darlunydd Meddygol
- Cynorthwy-ydd Dylunio
- Dylunydd Ffasiwn
- Dylunydd Graffeg
- Gweithiwr Celf
- Engrafwr Metel
- Gweithiwr Marsiandiaeth Weledol
- Darlunydd Masnachol
- Dylunydd Cerameg
- Dylunydd Esgidiau
- Dylunydd Dodrefn
- Dylunydd Cynnyrch
- Dylunydd Cerbydau
- Dylunydd Mewnol
- Dylunydd Gemwaith
- Dylunydd Pecynnu
- Dylunydd Tecstilau
- Dylunydd Gwisgoedd
- Dylunydd Theatr
- Technegydd Offerynnau Cerdd
- Ymchwilydd Lluniau
- Darlunydd Technegol/Gwyddonol
- Gwneuthurwr Modelau
- Fframiwr Lluniau
- Dylunydd
- Darlunydd
- Artist
- Artist CGI
- Artist Effeithiau Gweledol (VFX)
- Nostalgydd